Sustainable Development Commission

Healthy Futures

# Progress in Practice

## Cyflenwadau Iechyd Cymru

**Mae Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru yn arloesi model cadwyn gyflenwi newydd drwy weithio gyda Chyflenwadau Iechyd Cymru i sicrhau ymagwedd fwy cydweithredol a chynaliadwy tuag at gaffael cig, i ddechrau drwy ddefnyddio cig eidion Cymreig lleol.**


### Crynodeb

Cyflenwadau Iechyd Cymru yw'r darparwr contractio a rheoli deunyddiau canolog ar gyfer y GIG. Un o'u prif amcanion yw cyflenwi ansawdd gyson uchel o gig, ac yn ddiweddar achubwyd ar y cyfle i ailfodelu eu cadwyn cyflenwi cig gyda'r nod o sicrhau cyflenwad rheolaidd a lleol. Wrth wneud hyn, nid yn unig maent yn bodloni safon ansawdd y GIG o ran cynhyrchu a pharatoi bwyd, cydymffurfio â rheoliadau'r UE a chadw o fewn y pris a negodwyd ond maent hefyd yn cynorthwyo agenda datblygu cynaliadwy'r GIG. Mae'r fenter yn cyfrannu at yr economi leol, yn cynorthwyo cymunedau ffermio lleol ac yn lleihau effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â chludo bwyd.


Bu Cyflenwadau Iechyd Cymru (CIC) yn gweithio'n agos â Menter Gaffael Cymru (WPI), y cyflenwyr dan gontract yng Ngogledd Cymru, gwaith prosesu lleol a rheolwyr arlwyo o Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru, i dreialu cynllun i sicrhau cig eidion Cymreig sydd wedi'i godi a'i ladd yn yr ardal, i'w gyflenwi'n uniongyrchol i ysbytai lleol yn ddiweddarach. Mae hyn yn sicrhau ymagwedd fwy cydweithredol tuag at gyflenwi, paratoi a threuliant bwyd.

Os bydd y cynllun peilot yn llwyddiannus mae CIC yn bwriadu trafod rhoi'r model ar waith o fewn Ymddiriedolaethau ledled De Cymru ac felly sicrhau cyflenwad cyson o gig eidion o Gymru ym mhob rhan o'r wlad; yna gellir ystyried toriadau o gig eraill megis cig oen. Yn dilyn hyn, bydd CIC yn adolygu sut y gallai model y gadwyn gyflenwi gael ei ymgorffori i feysydd eraill, a bydd CIC yn sicrhau bod yr arfer da hwn yn cael ei rannu ar draws holl gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru.



*"Mae cynlluniau peilot fel y rhain yn golygu y gall defnyddwyr fod yn hyderus eu bod yn gwybod o ble y daeth eu prydau bwyd, mae Cyflenwadau Iechyd Cymru yn gallu dangos i gyflenwyr yr hyn y gellir ei gyflawni drwy gydweithio, ac mae'r GIG yn gallu cefnogi'r economi leol a gwneud gwahaniaeth iddi ynghyd â hyrwyddo cynnyrch cynaliadwy."*

David Ince, Rheolwr Arlwyo yn Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych, a Chadeirydd Gr·p Ymgynghori Arlwyo GIG Cymru Gyfan.

**Pwyntiau Dysgu Allweddol:**

- Bydd ymgysylltu â'r holl bartïon yn y gadwyn gyflenwi yn sicrhau bod sianeli cyfathrebu agored yn bodoli.
- Bydd cytuno ar yr amcanion cyffredinol gyda'r holl bartïon ar y cychwyn yn sicrhau bod pawb yn parhau i ganolbwyntio ar y nod yn y pen draw.
- Rhaid i barodrwydd i gydweithio a bod yn agored fodoli er mwyn datblygu ymagweddau ac arferion gwaith newydd.

**Cysylltiadau a sefydliadau sy'n cymryd rhan:** Cyflenwadau Iechyd Cymru: http://www.whs.wales.nhs.uk http://www.buy4wales.co.uk, Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych: http://www.conwy-denbighshire-nhs.org.uk/, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru: http://www.northwestwales.org/ ac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru.


**Cysylltiadau:**

June Scott, Rheolwr Contractau, Cyflenwadau Iechyd Cymru, june.scott@whs.wales.nhs.uk
Alison Standfast, Menter Gaffael Cymru (Gr·p Datblygu Bwyd SME), Rheolwr y Rhaglen ar gyfer Arfer Gorau, Alison.standfast@wales.gsi.gov.uk